

Trwy e-bost

17 Medi 2020



Annwyl Bennaeth Canolfan,

Wrth anfon y llythyr hwn, rwy'n gobeithio eich bod chi'n ddiogel ac yn iach wrth i ni ddechrau tymor yr hydref. Bydd hwn yn dymor heriol i bawb, ac rydym yn cydnabod y dasg sylweddol yr ydych eisoes wedi'i chyflawni i ddarparu amgylchedd diogel i ddysgwyr a staff, a sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ail-ymgysylltu â'u cwricwlwm.

Bu haf 2020 yn gyfnod anhygoel o anodd i bawb. Rwyf am eich sicrhau bod y penderfyniadau a wnaed wrth arwain at haf 2020 wedi'u gwneud gyda'r bwriadau gorau, a'u bod wedi'u gosod o fewn cyd-destun cyfnod digynsail i bob un ohonom. Rydym yn croesawu'r adolygiad annibynnol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Awst.

Haf 2020

Ar 4 Medi, gwnaethom [gyhoeddi](#) diweddariad i'n trosolwg o ganlyniadau'r haf, gan roi'r amcangyfrifon gorau o'r canlyniadau cenedlaethol terfynol ar gyfer graddau a ddyfarnwyd yr haf hwn. Roedd hefyd yn cynnwys dadansoddiad pellach o fylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â rhai nodweddion gwarchoddedig.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am ganlyniadau haf 2020, sef dau gyhoeddiad ystadegol ad hoc yn bennaf. Mae'r cyntaf, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ddechrau mis Hydref, yn edrych ar amrywioldeb lefel canolfan yng nghanlyniadau terfynol haf 2020, y graddau asesu canolfannau a'r graddau safonedig o gymharu â chanlyniadau'r haf yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Bydd y datganiad hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddata ar lefelau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r ail, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Hydref, yn cynnwys ddadansoddiad cydraddoldeb pellach o ganlyniadau haf 2020.

Addasiadau cymwysterau TGAU, Safon UG ac Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer haf 2021

Mewn ymateb i'r penderfyniad i gau ysgolion a cholegau dros dro ym mis Mawrth 2020, gwnaethom ymrwymo i ystyried yr angen i gael addasiadau posib i

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

gymwysterau i'w hasesu yn 2021. Mae hyn er mwyn lliniaru amser addysgu a dysgu a gollwyd ac i gynorthwyo ysgolion a cholegau i gydymffurfio â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Fel rhan o'r broses, ar 15 Gorffennaf 2020, gwnaethom [gyhoeddi](#) gofyniad i CBAC wneud newidiadau priodol i gymwysterau TGAU a Safon Uwch ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll arholiadau yn haf 2021. Ar 6 Awst 2020, gwnaethom [gyhoeddi](#) gofynion terfynol ar gyfer addasiadau i asesiadau yn haf 2021.

Er mwyn datblygu ei ffordd o feddwl, ymgynghorodd CBAC ag athrawon o bob rhan o Gymru ar gymwysterau TGAU a Safon Uwch, gan sicrhau bod dilysrwydd cymwysterau i ddysgwyr yn cael ei gynnal. Gellir gweld rhestr o addasiadau ar [wefan CBAC](#).

Mae dyfarnu cymwysterau yn haf 2021 yn flaenoriaeth i Cymwysterau Cymru, a byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar y ffordd orau o wneud hyn ac yn cyhoeddi llinell amser o ddigwyddiadau a fydd yn cefnogi ein ffordd o feddwl.

Addasiadau cymwysterau galwedigaethol haf 2021

Mae cymwysterau galwedigaethol yr un mor bwysig i ddysgwyr yng Nghymru, ac ar hyn o bryd, mae Ofqual yn [ymgyngori](#) ar y trefniadau ar gyfer asesu a dyfarnu cymwysterau galwedigaethol, technegol a chyffredinol eraill yn 2020 i 2021. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yw 20 Medi 2020. Ar gyfer cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru yn unig, rydym yn gweithio'n agos gyda chyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid i wneud y penderfyniadau cywir i'n dysgwyr, a byddwn yn darparu diweddariad yn fuan.

Bydd CBAC yn cyhoeddi trefniadau ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol y mae'n eu cynnig pan fyddant wedi'u cwblhau. Mae cwestiynau cyffredin am gymwysterau lefel 1/2 a lefel 3 ar [wefan](#) CBAC.

Mae'r addasiadau ar gyfer cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cymeradwy wedi'u cyhoeddi gan y Consortiwm ar [wefan](#) Dysgu lechyd a Gofal Cymru.

Cytunwyd ar addasiadau i ddysgwyr sy'n cwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru cyn 30 Tachwedd ym mis Ebrill fel rhan o'r gwaith ar drefniadau 2020. Mae'r manylion hyn i'w gweld ar [wefan](#) Cymwysterau Cymru. Rydym yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu Sgiliau Hanfodol Cymru i ystyried pa addasiadau y gallai fod eu hangen y tu hwnt i fis Tachwedd 2020 a bydd rhagor o fanylion ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Diwygio cymwysterau

Mae ein rhaglen o waith adolygu a diwygio yn parhau, i sicrhau bod cymwysterau presennol a newydd yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chanolfannau yng Nghymru. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- Datblygu Meini Prawf Cymeradwyo Technoleg Ddigidol TAG UG/Safon Uwch - 14 Medi;
- Ymgynghoriad Tystysgrif Her Sgiliau Uwch - 21 Medi;
- Lansio adroddiad cafyddiadau a phenderfyniadau'r Adolygiad o'r Sector Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni - 21 Hydref; a
- Gwaith paratoi ar gyfer Cam 2 o'r ymgynghoriad *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Rydym yn cydnabod yr aflonyddwch sy'n parhau mewn canolfannau, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â chanolfannau a chyhoeddi gwybodaeth wrth iddi ddod ar gael, gan rannu gwybodaeth yn uniongyrchol â chi, ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, yna mae croeso i chi gysylltu â fi neu fy nghydweithwyr.

Rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr